**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **19 Chwefror 2008** |
| **TEITL** | **CASGLU GWASTRAFF SWMPUS** |
| **PWRPAS** | **Ystyried Newidiadau i'r Ddarpariaeth a'r Ffioedd** |
| **ARGYMHELLIAD** | **I dderbyn yr Argymhelliad** |
| **AWDUR** | **Gwyn Morris Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Emyr Pugh** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth casglu gwastraff swmpus o eiddo domestig. Ers i'r Bwrdd argymell newid i'r drefn casglu ar 16, Mai, 2006, gellir gofyn am un casgliad am ddim yn ystod blwyddyn ariannol, gydag uchafswm o 5 eitem ar gyfer pob casgliad. Codir ffi o £27 + TAW (cyfanswm o £32.90) am bob casgliad ychwanegol i hyn.

1.2 Dewisol yw'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus ac mae'r Pwyllgor Amgylchedd, Bwrdd Rheoli Adnoddau, Cyfadran Amgylchedd a'r Gweithgor Craffu perthnasol wedi ei adnabod fel gweithgaredd sydd angen ei adolygu unwaith yn rhagor o ganlyniad i'r drefn Blaenoriaethu Gweithgareddau ar angen i sicrhau arbedion.

1.3 Yn ogystal, mae'r rhaglen o sefydlu rhwydwaith o safleoedd mwynderau yn prysur gael ei gyflawni. Mae'r safleoedd hyn yn derbyn ac ailgylchu gwastraff tŷ megis hen ddodrefn, offer trydanol a.y.b. Mae'n amserol, felly, i adolygu'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus unwaith yn rhagor.

## 2. GWYBODAETH AM Y GWASANAETH

2.1 Rhagwelir y bydd cost y gwasanaeth casglu swmpus o ddeutu £160,000 yn 2008/09.

2.2 Yn Nhabl 1 o Atodiad 'A' ceir dadansoddiad o'r nifer o gasgliadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn 2007/08, sef cyfanswm oddeutu 10,000 o geisiadau.

2.3 Ers cyflwyno ffi ar gasgliadau ychwanegol, mae'n gywir adrodd bod y gofyn am gasgliadau swmpus wedi gostwng. Mae'r nifer o gasgliadau ychwanegol i'r cyntaf (am ddim) oddeutu 100 y flwyddyn.

## 3. CYMHARIAETH A SIROEDD ERAILL

3.1 Mae o ddeutu 80% o Awdurdodau Lleol sy'n darparu'r gwasanaeth ym Mhrydain yn codi ffi am gasglu gwastraff swmpus o eiddo domestig.

3.2 O'r 22 Sir yng Nghymru, oddeutu 7 Sir sydd yn darparu casgliad am ddim.

Dyma enghreifftiau o drefniadau siroedd cyfagos i Wynedd:

| | |
|---|---|
| Conwy: | £20 am gasgliad o hyd at 4 eitem |
| Fflint: | £7.50 am gasgliad o hyd at 5 eitem |
| Powys: | £25 am gasgliad o hyd at 6 eitem |
| Wrecsam: | £17.50 am gasgliad o hyd at 5 eitem |
| Ynys Môn: | dim ffi hyd at ddau gasgliad |
| Dinbych: | £3 yr eitem. |

**3.3 Mae'r uchod yn amlygu'r angen i Gyngor Gwynedd adolygu ei drefniadau yn enwedig o safbwynt cynnig casgliadau am ddim.**

## 4. YSTYRIAETH O LEFEL FFIOEDD

4.1 Gweler Tabl 2 yn Atodiad 'A' ar gyfer cymhariaeth o gynnydd incwm posib ar gyfer ystod o ffioedd sef £10, £15 a £20 y casgliad ar gyfer ystod o rhwng 1,000 a 10,000 casgliad y flwyddyn.

4.2 Mewn ystyried codi ffi ar y casgliad cyntaf mae'n hynod bwysig nodi y byddai posibilrwydd i'r nifer o gasgliadau y flwyddyn ddisgyn o ganlyniad, gyda mwy o drigolion yn dewis defnyddio'r safle mwynderau agosaf yn hytrach na thalu.

4.3 Yn ogystal, dylid ystyried y posibilrwydd o gael sefyllfa i'r gwrthwyneb h.y. nifer o geisiadau yn cynyddu pe byddai ffi isel yn cael ei godi.

4.4 Mae'r mater o osod lefel ffi wedi derbyn sylw Pwyllgor yr Amgylchedd a Gweithgor Craffu Blaenoriaethu Gweithgareddau ac awgrymwyd codi ffi o £15 ar gyfer casgliad hyd at 5 eitem. Byddai'r lefel ffi hwn yn berthnasol i gasgliadau ychwanegol yn ogystal.

4.5 Mae'r mater hwn wedi derbyn sylw a chefnogaeth Unedau Cyllid a Pholisi a Pherfformiad y Gyfadran Amgylchedd.

4.6 Byddai codi £15 am bob casgliad yn galluogi'r Cyngor:

- i barhau gyda chynnig y gwasanaeth hwn i drigolion Gwynedd
- i reoli y defnydd o'r gwasanaeth a'r costau ynghlwm mewn darparu'r gwasanaeth
- i gyfrannu tuag at arbedion sy'n ddisgwyliedig ar y Cyngor.

## 5. ARGYMHELLIAD

**5.1 Argymhellir i'r Bwrdd benderfynu:**

**Newid y drefn bresennol o gasgliadau (cyntaf) am ddim a ffi o £32.90 am bob casgliad a wneir yn ychwanegol i hyn yn ystod y flwyddyn ariannol i drefn o godi £15 am bob casgliad hyd at 5 eitem mewn nifer.**

**Gwyn Morris Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

A. Barn yr Aelod Lleol:

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

"Fel y noda'r adroddiad, mae'r cynnig sydd gerbron wedi codi o drefn gynhwysfawr o edrych ar holl weithgareddau'r gwasanaeth. Mae'r mater wedi cael cryn sylw ac, er bod elfen o risg fel y noda'r pennaeth Cyllid, mae'r gwasanaeth yn nodi sicrwydd bod y lefel arbedion yn gywir ac am eu gwireddu."

2. Swyddog Monitro:

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb."

3. Prif Swyddog Cyllid:

"Yn wyneb yr angen i ddarganfod arbedion ariannol sylweddol, sy'n amlwg o eitemau eraill ar raglen y cyfarfod, rwy'n cefnogi'r argymhelliad i godi ffi o £15 ar gyfer pob casgliad. Mae risg i'r nifer o gasgliadau ddisgyn, ond byddai 4,000 neu fwy o gasgliadau (o'i gymharu â 10,000 o gasgliadau eleni) yn ddigonol i wireddu'r arbedion sydd wedi'u amcangyfrif, a gellid adolygu'r sefyllfa ymhen blwyddyn."

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi: